Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Teifi**

**Ysgol Y Ddwylan**
**Heol Newydd**
**Castellnewydd Emlyn**
**SA38 9BA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Teifi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Teifi |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.<br>Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion<br>Cymraeg<br>a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu eu dymuniadau ac mae ganddynt gyfleoedd priodol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Rhoddir ystyriaeth i'w diddordebau a'u penderfyniadau, ac maent yn rhyngweithio'n dda. Mae'r plant wedi setlo'n dda a chânt rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Ar y cyfan, mae ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o'u cyfrifoldeb i ddiogelu plant. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd diogel a glân. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau addas i gadw'r amgylchedd yn ddiogel. Mae'r holl ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn drefnus, ac mae'r adnoddau yn addas ar gyfer anghenion y plant a'u camau datblygu, ac yn hawdd cael gafael arnynt.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a llawer o ofynion perthnasol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cadw ychydig o gofnodion ac mae'r tystysgrifau yn gyfredol. Ar y cyfan, mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn ddigonol.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Cânt gyfleoedd addas i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, er enghraifft ble i chwarae ac am ba mor hir. Rhoddir ystyriaeth i ddiddordebau a dewisiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis eu hoff gân i'w chanu yn ystod amser cylch ac yn cael dewis ble i chwarae yn ystod amser chwarae dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn fodlon ac wedi setlo. Maent wedi meithrin cydberthnasau â'r staff a phlant eraill. Maent yn gyfarwydd â'u hamgylchedd a'u harferion. Caiff eu teimladau eu cydnabod, ac maent yn meithrin cydberthnasau ac mae hoffter yn amlwg. Er enghraifft, gwelsom y plant yn archwilio'r ardal chwarae rôl yn hyderus, gan baratoi a chyflwyno bwyd i'r aelodau o'r staff.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol ac mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfyngedig sydd wedi'u paratoi ar eu cyfer, er enghraifft, chwythu swigod yn yr awyr agored. Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn archwilio adnoddau fel bocs o flociau adeiladu pren. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel jigsos ac yn archwilio'r hambwrdd twff ar thema'r môr.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn mwynhau dewis yr hyn y maent am ei fwyta o'u pecyn cinio ac mae eraill yn rhoi cynnig ar agor y pecyn yn annibynnol. Mae'r plant yn hyderus wrth roi eu sbwriel yn y bin ar ôl iddynt orffen bwyta, yn ogystal â gosod cadeiriau o dan y bwrdd. Fodd bynnag, mae'r plant yn colli cyfleoedd i fod yn hollol annibynnol. Er enghraifft, nid ydynt yn cael eu hybu i nôl eu diodydd eu hunain yn annibynnol drwy gydol y dydd.

**Gofal** a Datblygiad **Digonol**

Mae'r staff yn gweithio tuag at roi polisïau a'r gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Caiff cewynnau eu newid â gofal ac urddas. Fodd bynnag, ni chaiff lefelau hylendid trylwyr eu rhoi ar waith yn llawn yn ystod y weithdrefn newid cewynnau. Nid yw'r staff i gyd yn gwbl hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau diogelu, ond maent i gyd wedi cwblhau hyfforddiant. Caiff dogfennau damweiniau i gyd eu cwblhau a'u llofnodi'n gywir. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad, nid oedd gan unrhyw aelod o'r staff a oedd yn bresennol dystysgrif cymorth cyntaf ddilys. Gwnaeth y person â chyfrifoldeb weithredu ar unwaith a chwblhau hyfforddiant yn dilyn yr ymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff hyfforddiant cymorth cyntaf wyneb yn wyneb ei drefnu er mwyn i'r holl staff ei fynychu'n fuan.

Mae'r staff yn mwynhau bwyta, sgwrsio a chymdeithasu wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Mae'r plant yn dod â bwyd o gartref, a gwnaethom drafod y cynllun storio bagiau bwyd yn ystod yr ymweliad arolygu. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel, gan nodi risgiau ac yn eu rheoli'n gyson. Er enghraifft, cyfrif y plant cyn dychwelyd dan do ar ôl chwarae yn yr awyr agored. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau, sydd wedi'u storio'n agored ac yn hygyrch i'r plant.

Mae'r staff yn ymateb mewn modd cyson. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Yn ystod yr ymweliad, clywsom y staff yn gofyn i'r plant ar sawl achlysur beth yr hoffent ei wneud neu ble yr hoffent chwarae. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant ac yn ymateb yn dda i'w dewisiadau. Er enghraifft, cynnig y dewis o chwythu swigod ar y patio neu'r glaswellt. Mae'r staff yn ymateb i ddiddordebau'r plant ac yn hybu datblygiad wrth drafod rhifau, meintiau a synnau anifeiliaid wrth iddynt chwarae gyda'r anifeiliaid fferm. Mae’r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a’u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a’u hunan-barch, *‘Good boy’ a ‘canu a gwrando ffantastig.’* Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda drwy eu hannog i rannu ac i fod yn garedig tuag at eu ffrindiau, ‘*paid snatcho, bod yn garedig.’*

Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth briodol o ddatblygiad y plant. Mae ffeiliau a chofnodion y plant yn dangos asesiadau ac arsylwadau sylfaenol, ond nid ydynt yn cynnwys y camau nesaf. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau yn hawdd cael gafael arnynt i ddiwallu anghenion a dewisiadau'r plant, er enghraifft y fferm byd bach ag anifeiliaid. Nid yw'r staff bob amser yn sicrhau bod gweithgareddau a gynlluniwyd ar waith. Ar ddiwrnod yr ymweliad, nid oedd gweithgareddau a gynlluniwyd ar waith ac nid oedd unrhyw gynlluniau i'w gweld ar gyfer y diwrnod. O ganlyniad, roedd cyfnodau lle nad oedd y plant yn canolbwyntio'n llawn am nad oedd gweithgareddau wedi'u cynllunio ar eu cyfer. Mae gan y staff ddealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol y plant ac mae ganddynt weithdrefnau priodol ar waith i godi pryderon datblygiadol gyda'r awdurdod lleol er mwyn gwneud atgyfeiradau asesu os bydd

angen. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith drwy ddarllen straeon, trafod teimladau a chanu caneuon iddynt. Maent yn canu caneuon fel ‘Un crocodeil’ a ’Mynd ar y ceffyl.’ Mae'r staff yn sicrhau y caiff y Gymraeg ei defnyddio'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd Digonol

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn yr ysgol gynradd. Mae'n darparu amgylchedd glân, cynnes a diogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Maent hefyd yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, yn ogystal ag asesiadau risg tân, eu cynnal, ond ni chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y gymhareb rhwng y staff gofal a'r plant yn gywir a'u bod yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae llyfr ymwelwyr, cofrestr plant a staff ar waith, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau a pholisïau ar waith i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant yn eu gofal. Maent yn trefnu arferion glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid a rheoli heintiau priodol, ond nid yw'r cofnodion yn cynnwys tystiolaeth o lanhau teganau ac adnoddau. Maent yn cadw rhestr wirio o asesiadau risg dyddiol ar gyfer yr holl ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae diogelwch yr adeilad, gwiriadau tân a thystysgrifau yn ddilys ac yn dangos eu hymwybyddiaeth o ofynion diogelwch.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn olau ac yn groesawgar. Caiff yr adnoddau chwarae eu harddangos a'u cyflwyno'n addas. Caiff yr ardal awyr agored ei rhannu yn ardal batio ac yn ardal laswelltog â ffens. Mae'r systemau storio lefel isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol. Mae gosodiadau a dodrefn priodol o uchder addas i blant, fel y toiledau, sinciau, byrddau a chadeiriau. Mae digon o le i blant chwarae a dysgu. Mae cynllun yr ystafelloedd yn golygu bod y plant yn gallu symud o amgylch yn rhydd ac yn ddiogel. Mae toiledau'r plant yn uniongyrchol hygyrch o'r ystafell chwarae, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth o ran rheoli eu hanghenion personol eu hunain.

Mae'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn adlewyrchu gwaith celf y mae'r plant wedi'i greu. Gwnaethom drafod dathlu gwahanol ddiwylliannau a hybu amrywiaeth gyda'r person â chyfrifoldeb. Rhoddodd wybod i ni eu bod yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali gyda'r plant. Gall y plant ddefnyddio ardal awyr agored benodedig sy'n cynnig rhai cyfleoedd i'r plant archwilio. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn rheolaidd. Mae'n bosibl bod yr ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant. Er enghraifft, cegin fwd, chwarae dŵr a lle i'r plant feithrin eu sgiliau echddygol bras. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd y diffyg cynllunio yn golygu nad oedd yr ardaloedd hyn wedi'u gosod yn llawn er mwyn i'r plant eu defnyddio'n rhydd, er enghraifft nid oedd yr hambwrdd dŵr yn barod i'w ddefnyddio.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Digonol**

.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn sicrhau bod polisïau perthnasol ar waith a'u bod yn gyfredol. Fodd bynnag, ni chânt eu hadolygu'n flynyddol na'u llofnodi i ddangos eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y mwyafrif o'r dogfennu gofynnol ar waith. Cawsom olwg ar ffeiliau'r plant a gweld bod bron pob caniatâd yn ei le. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r cofnodion wedi cael eu cwblhau'n llawn i ddangos bod caniatâd i roi eli haul. Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac mae gwybodaeth ar goll yn y telerau ac amodau, derbyniadau ac adolygiadau. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y cofrestrau dyddiol yn adlewyrchu'r nifer o blant a staff sy'n bresennol. Mae'r cofnodion hyn yn dangos bod y cymarebau yn gywir ac y cydymffurfir â nhw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod trefniadau ar waith os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt gan staff wrth gefn. Maent wedi sicrhau bod y mwyafrif o'r gwiriadau addasrwydd staff yn cael eu cwblhau cyn iddynt ddechrau gweithio yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cwblhau gwiriadau addasrwydd staff llawn ar gyfer y staff banc. Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, hanes gwaith, disgrifiadau swydd a datganiad meddygol o iechyd. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi sicrhau bod holl wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pobl yn y gwasanaeth yn gyfredol ac nid ydynt wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau mewn staff. Mae'r rhain wedi'u nodi yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn casglu adborth anffurfiol gan y plant ac yn rhannu holiaduron â'r rhieni. Caiff safbwyntiau'r staff eu trafod mewn cyfarfodydd un i un. Fodd bynnag, ni wnaeth yr adolygiad a gyflwynwyd fel adroddiad blynyddol y gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru adlewyrchu'n gywir yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad arolygu.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal adolygiad blynyddol gyda'r staff, ond ni chaff sesiynau goruchwylio un i un gyda'r staff eu cynnal. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr ymweliad yn teimlo bod y cyfarfodydd un i un yn ogystal â'r hyfforddiant yn gyfyngedig iawn. Nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei fod yn cyfathrebu â'r rhieni a'r gofalwyr ar lafar pan fyddant yn gollwng ac yn casglu'r plant. Maent hefyd yn rhannu gwybodaeth ar eu tudalen cyfryngau cymdeithasol.  Ni chawsom adborth gan y rhieni fel rhan o'r broses arolygu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i'r staff. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan ei fod wedi methu â sicrhau bod ffeiliau'r staff yn cynnwys y dogfennau gofynnol yn unol â'r rheoliadau. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi sicrhau cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hyfforddiant, goruchwylio ac arfarniadau blynyddol. | Newydd |
| 12 | Mae'r darparwr wedi methu â sicrhau bod gan yr holl unigolion a enwir ac sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth wiriadau dilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |
| 24 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oes staff cymwys i roi cymorth cyntaf yn gofalu am y plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod diodydd ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau y cydymffurfir â pholisi a gweithdrefn newid cewynnau. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr adolygiad o ansawdd y gofal yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a gynigir. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau bod yr holl aelodau o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un ac arfarniadau blynyddol. |

| | |
|---|---|
| Safon 1 - Gwybodaeth | Sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cynnwys gwybodaeth am y polisi a'r trefniadau derbyn er mwyn eu hadolygu a rhoi gwybod i AGC am newidiadau. |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus o ran y broses i'w dilyn os bydd ganddo bryderon mewn perthynas â diogelu. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried cadw cofnod yn nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau fel rhan o'ch amserlen. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2024